**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun, Mehefin 15fed 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Raymond Bartley, Geraint Williams, Brian Davies, Colin L Hughes, Roy Tickle, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y pwyllgor newydd yma.

**1. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Gaynor Wood - eitem agenda item 4(1) Cymorthdaliadau - Cymdeithas Eirin Dinbych
(2) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 4(3) Cymorthdaliadau - Clwb Golff Dinbych

**2. Apwyntio Dirprwy Gadeirydd:** Cyng Roy Tickle

**3. Materion Brys:** Dim

**A. <u>Amgylchedd</u>**

**1. Gardd Goffa Dr Evan Pierce:**

(1) Nodwyd yr e-bost CSDd yn cadarnhau gosod bin sbwriel.
(2) Nodwyd yr e-bost oddi wrth Prue Probert ynglŷn â chyflwr presennol yr ardd

**2. Torri glaswellt yn ardal Parc Myddleton a Ffordd y Rhyl:** Cyfeiriodd clerc y dref at y cyfnewid e-byst gyda CSDd. Roedd y camllealldwriaeth y byddai CSDd yn parhau i dorri'r glaswellt er bod y cyngor tref wedi tynnu'n ôl ar y torri atodol, bellach wedi ei ddatrys. Derbyniwyd amcan bris o £1,128.37 oddi werth GSDd i dorri'r ardaloedd perthnasol. Cadarnhaodd clerc y dref y byddai modd ariannu'r amcan bris drwy symud dyraniadau yn y gyllideb o gwmpas y gwahanol benawdau o fewn y gyllideb tra ddim yn ychwanegu at gyllideb gwariant y cyngor. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) i **dderbyn yr amcan bris a hefyd argymhelliad clerc y dref.**

**B. <u>Finance</u>**

**1. Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ar gyfrifon 2014/2015.** Dywedodd clerc y dref fod yr archwiliad wedi bod yn un lwyddiannus ac ond un mater bychan a ddaeth i sylw'r archwilydd oedd bellach yn derbyn sylw.

**2. Cyfrifon:** Cymeradwywyd taliad y cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Clerc y dref - ad-daliad costau prynu stampiau post<br>(Rhif siec 005639) | - | £54.00 |
| (2) | Zen Internet - darpariaeth ADSL (Mehefin)<br>(Rhif siec 005640 | - | £18.37 |
| (3) | Ernest Martin - cloi ac agor giât gardd Dr E P (Mai)<br>(Rhif siec 005641) | - | £60.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (4) | Zurich - premiwm yswiriant adeilad yr hen Lysdy<br>(Cofnod 22(4)(3) yn cyfeirio).<br>(Rhif siec 005642) | - | £1,930.04 |
| (5) | JDH Business Services Ltd - adroddiad archwilydd mewnol<br>(Rhif siec 005643) | - | £504.00 |
| (6) | Sodexo - cynnal a chadw gardd Dr E P Garden (Mai)<br>(Rhif siec 005644) | - | £605.88 |
| (7) | Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 1.5.15 & 18.5.15<br>(Rhif siec 005645) | - | £212.40 |
| (8) | Clerc y Dref - costau teithio (Rhuthun)<br>(Rhif siec 005646) | - | £6.52 |
| (9) | Canda Copying - costau llungopïwr<br>(Rhif siec 005647) | - | £211.46 |
| (10) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Mai)<br>(Rhif siec 005648) | - | £14.23 |
| (11) | Viking Payments - offer swyddfa<br>(Rhif siec 005649) | - | £140.11 |

Cyfanswm taliadau: £3,757.01

3. **Derbyniwyd Adroddiad ariannol cyfnod 1.4.14 - 31.05.15.** Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â chynnal a chadw'r parc sglefrio. Cadarnhaodd clerc y dref fod y costau cynnal a chadw dros £5,000 gyda chyfraniad y cyngor yn £2,000 a'r gweddill yn cael ei ddarparu gan Grŵp Cynefin. Cytunwyd fod y cyngor yn ysgrifennu at GSDd am ddadansoddiad o'r costau ymglymedig,

4. **Cymorthdaliadau**: Gwahoddodd y cadeirydd Alun Ashworth ar ran Cymdeithas Eirin Dinbych a Grŵp Busnes Dinbych i annerch y cyfarfod ynglyn a'r ddau gais a gyflwynwyd am gymorthdaliadau ac ymatebodd i gwestiynau a sylwadau aelodau'r pwyllgor.

   Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Cymdeithas Dyffryn Clwyd o Eirin Dinbych | - | £2,000 (A.137)(rhif siec 005653) |
| (2) | Grŵp Busnes Dinbych<br>Gyda'r amod fod y grant ar gyfer Gweithgareddau'r Nadolig a Gŵyl Dydd Gŵyl Dewi Sant yn unig | - | £2,000 (A.137)(rhif siec 005654) |
| (3) | Clwb Golff Dinbych<br>Gyda'r amod fod y grant yn cael ei wario o fewn 6 mis ar y sustem CCTV ac os na fydd wedi ei wario fod y grant yn cael ei yrru'n ôl i'r cyngor tref. | - | £1,000 (A.137)(rhif siec 005655) |

5. **Nodwyd derbyn £1,000 oddi wrth Gymdeithas Ddinesig Dinbych, sef ad-daliad taliad cymorthdaliadau ynglŷn â digwyddiad Drysau'n Agored yn Ninbych.**

6. **Nodwyd derbyn £1,930.04 oddi wrth Amgueddfa Dinbych sef taliad premiwm yswiriant ar yr adeilad** (Cofnod22(4)(3) yn cyfeirio).

7. **Cau cangen Dinbych Banc y Nat West.** Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd oddi Nat West yn dweud y byddai cangen Dinbych yn cau ar Fedi'r 22ain 2015. Trafodwyd y mater. Mynegwyd pryderon ynglŷn â phroblemau agor cyfrif newydd gyda banc arall. Cadarnhaodd clerc y dref fod cyfrif y cyngor gyda'r banc ond fod ymweliadau a'r gangen yn anaml. Yn y diwedd **Penderfynwyd i gadw cyfrif y cyngor gyda Nat West.**

**8.** **Sul Dinesig.** Yn dilyn trafodaeth a gymerodd i ystyriaeth y gyllideb brin oedd ar gael, cytunwyd i gynnal y lluniaeth ar ôl Oedfa y Sul Dinesig yn y Guildhall Tavern. Clerc y dref i drafod lleihad yn y pris ar gyfer i bwffe cyffredin gyda te, coffi a diodydd meddal.

**9.** **Cylchfan Pwll y Grawys -** ystyriwyd cais gan y Cyng Gwyneth Kensler am i'r cyngor tref ddarparu ariannu cyfatebol o £5,000 tuag at gostau prosiect o £25,000. Cafwyd cryn drafodaeth. Derbyniwyd sylwadau (1) roedd y dyluniad a gyfeiriwyd ato wedi ei baratoi yn 2013; (2) Nid oedd y bysiau yn parcio yn eu mannau priodol; (3) Ni ddylai mannau aros bysiau fod ger cylchfannau; (4) roedd angen mwy o fanylion; (5) Roedd CSDd yn edrych ar leihau maint y gylchfan; (6) Sut oedd y cyngor tref i gael hyd i £5,000 o'r gyllideb bresennol; (7) Nid oedd Priffyrdd wedi blaenoriaethu'r ardal yma; (8) Roedd angen gwell ateb i Bwll y Grawys.
Gwahoddodd y cadeirydd y Cyng Kensler i fanylu. Beth a ofynnir amdano oedd i'r cyngor tref gytuno mewn egwyddor i gyfrannu swm o arian. Cadarnhaodd clerc y dref nad oedd gan y cyngor tref yr arian o fewn y gyllideb bresennol.
Cytunwyd yn y diwedd fod angen gwneud rhywbeth ar frys. Ymateb i'w yrru at y Cyng Kensler yn egluro fod y cyngor tref yn cyfrannu £37,000 i GSDd o'i gyllideb ac i awgrymu y dylid gofyn i priffyrdd gyfrannu o'u cyllideb.

**10.** **Prue Probert.** Ystyriwyd yr e-byst a dderbyniwyd ynglŷn â thaliad am ei gwasanaeth yng Ngardd Goffa Dr Evan Pierce. Nodwyd fod Ms Probert yn cynnig ei gwasanaeth am ddim ac ond yn gofyn am ei chostau teithio. Cytunwyd ar hyn. Cytunwyd hefyd i ad-dalu Ms Probert gostau dau ymweliad - £27 (Rhif siec 005650).

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.53 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................